**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 17 Awst 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | E W Fitzgerald | D W Helliwell |
| T J Hennegan | P K Jones | H Lawson |
| W G Lewis | C E Lloyd | S Pritchard |
| G J Tanner | W G Thomas | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

| | |
|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts |

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| S M Jones | L R Jones | J W Jones |

**Eraill a oedd yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Robert Francis-Davies | Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Steve Hopkins (Tourism & Marketing Manager) | Tourism and Marketing Manager |
| Clare James | Rheolwr Twristiaeth a Marchnata |
| Frances Jenkins | Rheolwr Datblygu Economaidd |
| Kate Jones | Rheolwr Strategol - Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau |
| Brij Madahar | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Mowbray | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Debbie Smith | Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol |
| Sue Woodward | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): T M White

Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: C A Holley a/ac P R Hood-Williams

---

### 26 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd Wendy Fitzgerald - Cofnod Rhif. 30 - yn berchen ar lety gwyliau - Personol

Y Cynghorydd Clive Lloyd - Cofnodion Rhifau 30, 31, a 32 - Datganodd y Cynghorydd Clive Lloyd fuddiant personol a rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitemau.

**27 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

**28 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.

**29 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**30 Craffu ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelodau'r Cabinet: Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth (Y Cynghorydd Robert Francis-Davies).**

Roedd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a Swyddogion yn bresennol i ystyried yr adroddiad ar Dwristiaeth a'r adroddiad ar Hyrwyddo Busnes a’r Ddinas.

**Twristiaeth**

Rhoddodd y Rheolwr Twristiaeth a Marchnata anerchiad llafar mewn perthynas â'r adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd a oedd yn tynnu sylw at y canlynol: -

- Gwerth twristiaeth i'r economi leol
- Effaith COVID-19 ar y diwydiant twristiaeth
- Blaenoriaeth Strategol 1: Adolygu ac Ymchwil - Cynnal gwybodaeth am ymwelwyr, nodi tueddiadau yn y farchnad a chynnal arolygon o stoc gwelyau, cyfraddau llenwi ac arolygon masnach.
- Blaenoriaeth Strategol 2: Cyfeirio a chefnogi - cefnogi busnesau drwy'r pandemig gyda grantiau a chymorth ar ddeddfwriaeth ac arweiniad
- Blaenoriaeth Strategol 3: Atgoffa ac annog pobl i ddychwelyd – bu’n rhaid i ymgyrchoedd marchnata ganolbwyntio ar yr hyn a oedd ar gael ar ôl agor
- Ymgysylltiad da ar gyfryngau cymdeithasol
- Dim ond yn ddiweddar yr oedd y sector digwyddiadau wedi ailagor ac roedd hynny'n rhan bwysig o gynnig Abertawe
- Cynllun Rheoli Cyrchfannau
- Problemau o ran y gwahanol reolau rhwng Cymru a Lloegr
- Diddordeb gan fusnesau a gweithredwyr newydd
- Ffocws allweddol ar wneud i'r tymor bara'n hirach

- Ymgyrch farchnata newydd ar gyfer eleni – ‘Lle Hapus’
- Ceisiadau llwyddiannus am arian o'r Gronfa Cadernid Economaidd
- Cynllun Adfer Twristiaeth
- Sylw gan y wasg

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Y Cynllun Adfer Twristiaeth
- Dyddiad cau a chynulleidfa darged wrth farchnata Abertawe fel cyrchfan i dwristiaid Cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynd ar eu gwyliau yng Nghymru a buddion i Abertawe
- Argymhellion yn codi o'r Gweithgor Craffu Twristiaeth blaenorol na chawsant eu derbyn gan y Cabinet, a'r potensial i ailedrych arnynt - yn enwedig o ran hyrwyddo eco-dwristiaeth gyda sefydliadau amgylcheddol.
- Perthynas â Grŵp Gweithredu Diogelwch Gwerinwyr Gŵyr
- Hyrwyddo'r orsaf reilffordd yn Nhre-gŵyr yn enwedig o safbwynt eco-dwristiaeth yn ogystal â'r posibilrwydd o logi beiciau yn yr orsaf i hyrwyddo mynediad i Ben-clawdd/Gogledd Gŵyr
- Twristiaeth rithwir - posibilrwydd o osod codau QR mewn cyrchfannau a allai ddarparu gwybodaeth/hanes ar gyfer y cyrchfan hwnnw
- Hyrwyddo/marchnata ar gyfer y farchnad leol - Ditectif Carreg Drws
- Mapiau hygyrch o lwybrau troed ar gyfer pobl sy'n mwynhau gwyliau gwyrdd
- Pwysigrwydd edrychiad a theimlad Abertawe i dwristiaid, e.e. glendid a gwelliannau angenrheidiol i doiledau cyhoeddus
- Menyw Goch Pen-y-fai (Pafiland) a'i harwyddocâd i'r ardal
- Prosiect Celtic Wave - nodwyd Abertawe fel porthladd posib - cyfyngiadau ar faint y llongau a all ddod mewn i'r porthladd.
- Treth i dwristiaid - syniad a grybwyllwyd gan Lywodraeth Cymru

## Hyrwyddo Busnes a Dinas

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Hygyrchedd cyngor a chefnogaeth i fusnesau. Nodwyd cynnydd mewn gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol. Nodwyd bod gwefan newydd y cyngor i fod i gael ei lansio yfory a fyddai â gwybodaeth berthnasol a gwell i fusnesau
- Cynnydd safle Parc Felindre wrth ddenu busnesau newydd - dywedwyd bod y 18 mis diwethaf wedi bod yn anodd ond bod yr economi'n gwella yn ogystal â diddordeb yn y safle, gyda 3 thrafodaeth fyw yn mynd rhagddynt
- Effaith y pandemig ar ganol y ddinas a chynlluniau adfer - nodwyd bod Strategaeth Ail-bwrpasu Canol y Ddinas i fod i'w chyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi.
- Roedd datblygu'r Arena a'r agenda adfywio yn rhoi gwell golwg ar Abertawe
- Cael tenantiaid ar gyfer yr unedau gwag yn y Cwadrant gan gynnwys Debenhams - roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda pherchnogion y Cwadrant ac roedd disgwyl i unedau gael eu gosod
- Roedd holl unedau'r Arena wedi'u gosod gyda busnesau lleol o ansawdd da a disgwylid i'r Arena gynhyrchu dros 200 o ddigwyddiadau'r flwyddyn ymhen 3 blynedd

- Hyrwyddo bwyd lleol - cig oen morfeydd heli Gŵyr
- Pwysigrwydd canol y ddinas defnydd cymysg
- Llety i fyfyrwyr, datblygiad Ffordd y Brenin a chynnydd yn nifer yr ymwelwyr â chanol y ddinas
- Hyrwyddo bwyd lleol - e.e. yn dilyn y statws gwarchodedig diweddar a roddwyd i gig oen morfeydd heli Gŵyr

Diolchwyd Aelod y Cabinet a'r Swyddogion gan y Cadeirydd.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 31 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwella Gwasanaethau a Chyllid (Y Cynghorydd Chris Holley, Cynullydd)

Cyflwynodd y Cynghorydd Jeff Jones Adroddiad Diweddaru'r Panel Gwella Gwasanaethau a Pherfformiad Cyllid ar ran y Cynullydd.

Yn dilyn yr adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd, amlygodd yn benodol: -

- Fonitro Cyllideb Chwarter 3 2021/21
- Colli incwm o ganlyniad i'r pandemig - roedd Llywodraeth Cymru wedi talu £2.2 miliwn
- Roedd gan Gyngor Abertawe lefelau benthyca uchel
- Gwariant y Gronfa Gyffredinol oedd £150 miliwn - roedd Llywodraeth Cymru wedi talu peth o hwnnw
- £50 miliwn wrth gefn - grantiau a chyllid cyfochrog yn bennaf
- Roedd costau cyllido cyfalaf i lawr - yn bennaf oherwydd penderfyniadau i beidio â bwrw ymlaen â rhai prosiectau'n
- Diffyg Treth y Cyngor o £2.5 miliwn a dalwyd gan Lywodraeth Cymru
- Adroddiad Blynyddol Cwynion Corfforaethol
- Cynnydd tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru
- Perfformiad mewn perthynas â Safona'r Gymraeg

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Jeff Jones am y diweddariad.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 32 Adroddiad Blynyddol Craffu 2020/21.

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol Craffu 2020/21.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Craffu 2020/21 a'i roi gerbron y cyngor.

## 33 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am aelodaeth paneli a gweithgorau craffu.

**Penderfynwyd** ychwanegu'r Cynghorydd Joe Hale at Banel Craffu Perfformiad yr Amgylchedd Naturiol.

## 34 Rhaglen Waith Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am y Rhaglen Waith Craffu.

Cyfeiriodd at y penderfyniad i ddiddymu consortiwm rhanbarthol ERW (Ein Rhanbarth ar Waith) a sefydlu Partneriaeth Addysg De-orllewin Cymru newydd. Bydd cytundeb cyfreithiol rhwng y 3 chyngor sy'n ymwneud â'r bartneriaeth newydd yn cadarnhau telerau'r bartneriaeth a'r trefniadau llywodraethu, gan gynnwys trefniadau craffu.

Nododd y Pwyllgor gais cyhoeddus am graffu a dywedwyd wrthynt y byddai'r Panel Gwella Gwasanaethau a Pherfformiad Cyllid yn edrych ar y Gwasanaethau Cynllunio yn un o gyfarfodydd y Panel ym mis Tachwedd.

Trefnwyd cyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar gyfer 14 Medi 2021. Y prif eitemau a drefnwyd oedd trafodaethau ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelodau’r Cabinet a restrir isod: -

1. Sbwriel a Glanhau'r Gymuned gydag Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd
2. Polisi Ynni (gan gynnwys cynhyrchu, cyflenwi a'r rhwydwaith gwresogi) gydag Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 35 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Lythyrau Craffu' er gwybodaeth.

Roedd yn cynnwys gohebiaeth a oedd yn ymwneud â chyfarfod diweddar Gweithgor Cynghorwyr Craffu ERW er gwybodaeth i'r pwyllgor.

**Penderfynwyd** nodi cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

## 36 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.

Nodwyd dyddiad ac amser cyfarfod nesaf y panel/gweithgor.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.55 pm

**Cadeirydd**